

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 2il Tachwedd 2016 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd A. R. James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, Ms J. McAlpine, Mrs. W. Mullen-James, Miss S. Roberts, A.R. Rutherford, Miss R. Siddall, a T. Thomas a'r Parch.
S. Walker

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

30. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr B. F. Moylan (yn sâl), S. Ratcliffe, (ymrwymiad personol).

31. SWYDD Y CADEIRYDD

Dyweddodd y Cadeirydd, ar ôl ei ethol i Gyngor Sir Ddinbych, nad oedd yn fwriad ganddo wasanaethu ar Bwyllgor Cynllunio'r Awdurdod hwnnw, er bod hyn eto i'w gadarnhau. Oherwydd hyn, dymunai barhau i wasanaethu ar Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor.

PENDERFYNWYD cyflwyno adroddiad i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i benderfynu ar y polisi ar benodi Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Committee.

32. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

Nodyn 2: Dywedodd/Ail-ddyweddodd yr Aelodau canlynol sydd hefyd yn gwasanaethu ar Gyngor Sir Ddinbych eu bod, wrth gymryd penderfyniadau ar y ceisiadau, yn gwneud hynny ar sail yr wybodaeth a oedd ger eu bron nawr ac os oedd angen ystyried y ceisiadau yng Nghyngor Sir Ddinbych, y byddant yn edrych ar y ceisiadau o'r newydd yn seiliedig ar yr wybodaeth a fydd ar gael bryd hynny, ac oherwydd hynny efallai y byddant yn dod i benderfyniad gwahanol arnynt.

Y Cynghorwyr: A. James a Mrs. W. Mullen James

CEISIADAU CYNLLUNIO

31.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 17/19 Bodfor Street, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Bodfor</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0814</p> <p>Arddangos un Bwrdd ffasgia goleuedig</p> <p>Yr Ymgeisydd yw Dylan Jones Contracts, 25 Brighton Road, y Rhyl.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
31.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Clwb Rygbi, Chwaraeon a Chymdeithasol y Rhyl a'r Ardal, Vale Road, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Cefndy</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0993</p> <p>Newid defnydd o glwb cymdeithasol i ganolfan eglwys a chymunedol.</p> <p>Yr Ymgeisydd yw'r Parch. M. Bethany, Canolfan Gristnogol Wellspring, 1 Rhodfa Wyn, Prestatyn LL19 7UN</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
31.3	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Llain 2, 81 Ffordd Rhuddlan, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0964</p> <p>Adeiladu 1 pâr o dai semi ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau.</p> <p>Yr Ymgeisydd yw Mr. William Ward, North Wales Construction Ltd., North Works, Guilden Sutton Lane, Guilden Sutton, Caer CH3 7EX</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>

33. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: